

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Cynllunio

**Dyddiad y Cyfarfod:** 10 Tachwedd 2021

**Aelodau / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Mark Young, Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel a'r Cynghorydd Tony Thomas a Chyd-bwyllgor AHNE/Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE

**Awdur yr Adroddiad:** Tony Hughes, Swyddog Cynllunio AHNE

**Teitl:** **'Cynllunio ar gyfer Awyr Dywyll' - Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer golau yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy – Adroddiad ar Ymgynghoriadau Cyhoeddus**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Chanllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar gyfer golau yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a oedd yn destun ymgynghoriadau cyhoeddus yn gynharach eleni. Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriadau ac yn argymhell newidiadau i'r CCA drafft gyda'r gobaith y bydd yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Pwyllgor Cynllunio. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio pwysig yn y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio a chynigion datblygu o fewn yr AHNE a'r lleoliad.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Cynllun Rheoli AHNE a fabwysiadwyd yn diffinio'r Nodweddion Arbennig sy'n golygu bod yr ardal yn dirwedd a ddiogelir yn genedlaethol. Un o'r nodweddion arbennig yw tawelwch – awyrgylch tawel a llongydd; heddwch a distawrwydd; a gydag **awyr dywyll**. Bydd y CCA yn helpu i gadw'r nodwedd arbennig hwn trwy roi rhagor o ganllawiau i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol ar olau. Hefyd, mae Cydbwyllgor a Phartneriaeth yr AHNE yn ceisio cydnabyddiaeth ffurfiol o'r ardal fel Cymuned Awyr Dywyll gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol, ac mae'r CCA yn ragofyniad hanfodol ar gyfer dynodiad o'r fath.

2.2 Mae'r CCA drafft yn ategu polisiau'r CDLI VOE2: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac RD1: Datblygu cynaliadwy a dyluniad da. Y Polisiau Allweddol drafft yn y CDLI Newydd sy'n dod i'r amlwg, sy'n berthnasol, yw Creu Lleoddedd a'r Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig.

2.3 Cymeradwywyd y CCA drafft ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus gan y Pwyllgor Cynllunio ym mis Mai 2021. Gan ei fod yn gyd-fenter rhwng y tri awdurdod cynllunio lleol yn yr AHNE – Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam – mae ein hawdurdodau partner hefyd wedi cymeradwyo'r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r

adroddiad yn amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriadau ac yn argymhell newidiadau i'r CCA drafft gyda'r gobaith y bydd yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Pwyllgor Cynllunio.

### **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r CCA ac yn mabwysiadu 'Cynllunio ar gyfer Awyr Dywyll' - Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer golau yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy' yn ffurfiol.

### **4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ddrafft ymgynghorol er mwyn i bobl fedru cyflwyno sylwadau ar 14 Mehefin 2021. Roedd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 8 wythnos, ac fe ddaeth i ben ar 9 Awst 2021. O ystyried ei fod yn brosiect ar y cyd rhwng y tri awdurdod cynllunio lleol ynghyd â AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, cyhoeddwyd y ddogfen yn ardaloedd y tri chyngor a'i chyhoeddi ar wefannau'r sefydliadau hyn. Sir Ddinbych oedd yn arwain ar gydlynu'r ymgynghoriadau, a chyhoeddwyd y ddogfen ar eu porthol ymgynghori er mwyn i bobl fedru cyflwyno sylwadau.

4.2 O ystyried y cyfyngiadau yn sgil y pandemig Covid-19, nid oedd yn bosibl cynnal cyfarfodydd nag arddangosfeydd cyhoeddus i hyrwyddo'r ymgynghoriad, ond ymdrechwyd i godi ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad ac annog cyfranogiad a sylwadau ar y cynigion. Roedd y mesurau i annog pobl i gymryd rhan yn y broses yn cynnwys:

- Datganiad i'r wasg cychwynnol yn egluro cefndir y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig a rhoi gwybod i'r cyhoedd ble i ddod o hyd i'r ddogfen a chyflwyno sylwadau.
- Anfonwyd llythyr ymgynghori ffurfiol at bob un o'r ymgynghoreion statudol, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn iddynt fedru gwahodd sylwadau.
- Anfonwyd llythyr ymgynghori at gronfa ddata cysylltiadau'r awdurdod cynllunio lleol, sy'n cynnwys ymgynghorwyr cynllunio lleol, asiantwyr ac ymgynghoreion anstatudol eraill.
- Defnyddiwyd y Cyfryngau Cymdeithasol hefyd i godi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb yn yr ymgynghoriad. Cyhoeddwyd negeseuon ar gyfrifon Twitter a Facebook Sir Ddinbych a'r AHNE ar ddechrau'r ymgynghoriad ac yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn cynnal diddordeb.
- Roedd copïau papur o'r ddogfen hefyd ar gael yn llyfrgelloedd Sir Ddinbych

4.3 Derbyniwyd 31 o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Amlinellir y rhain yn y tabl sydd ynghlwm â'r adroddiad hwn, sydd hefyd yn crynhoi ymateb cyd-weithgor swyddogion y Cynghorau i'r sylwadau a dderbyniwyd a'r newidiadau arfaethedig i'r ddogfen ddrafft. Mae copi o'r CCA gan gynnwys y diwygiadau arfaethedig hefyd ynghlwm â'r adroddiad hwn.

4.4 Bydd aelodau'n gweld yn y sylwadau a dderbyniwyd bod nifer fawr o bobl yn cefnogi'r gwaith o gadw a gwella ein hawyr dywyll, sef yr hyn y mae'r CCA yn ceisio ei gyflawni. Er bod y mwyafrif o ymatebwyr yn cefnogi nodau'r CCA, cafwyd

sylwadau arbennig gan nifer fechan o bobl ac mae'r cyd-weithgor swyddogion wedi mynd i'r afael â'r rhain ac, lle bo hynny'n briodol, wedi cynnig newidiadau.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r CCA drafft yn cyfrannu at Flaenoriaeth Gorfforaethol: Yr Amgylchedd – 'mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd'. Bydd lleihau llygredd golau yn lleihau allyriadau carbon, cyfrannu at iechyd a lles pobl a lleihau effaith negyddol gormod o olau ar fioamrywiaeth. Bydd hefyd yn cynorthwyo i gadw nodweddion arbennig yr AHNE fel tirwedd a ddiogelir yn genedlaethol a gwella ei hapêl i ymwelwyr. Bydd effaith gadarnhaol ar yr economi leol hefyd trwy wella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth astro yn ystod misoedd tawelach yr hydref/gaeaf.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni ragwelir y bydd mabwysiadu'r ddogfen CCA yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Caiff gwasanaethau eraill eu heffeithio pan fyddant yn cynnig cynlluniau goleuadau allanol neu ddatblygiad cysylltiedig y dylid eu cynllunio a'u nodi i fod yn gyfeillgar i awyr dywyll. Sylwch na fydd dyluniad golau sy'n gyfeillgar i awyr dywyll yn creu costau ychwanegol o reidrwydd.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Y prif gasgliadau yw y bydd y CCA drafft yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, iechyd a lles a bioamrywiaeth. Bydd hefyd yn cyfrannu at ostyngiad o ran allyriadau carbon. Mae Asesiad o Effaith ar Les a gwblhawyd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Mae'r AHNE yn cwmpasu rhan o dair ardal awdurdod cynllunio lleol – Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam – a bydd y CCA yn berthnasol i'r ardal berthnasol o bob un o'r tri awdurdod. Sefydlwyd cyd-weithgor swyddogion sy'n cynnwys swyddogion cynllunio o'r tri awdurdod ynghyd â chynrychiolwyr o'r AHNE, er mwyn symud ymlaen â gwaith paratoi a mabwysiadu'r CCA drafft a'i gydlynu.

8.2 Er mwyn sicrhau cysondeb trawsffiniol o ran y dull a ddefnyddir ar draws yr AHNE, bydd yn rhaid i'r tri awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu'r un fersiwn o'r CCA. Bydd adroddiad ar ymgynghoriadau a'r CCA diwygiedig ynghyd ag argymhelliad i'w fabwysiadu yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Gweithredol Wrecsam ar 7 Rhagfyr a Chabinet Sir y Fflint ar 14 Rhagfyr.

8.3 Ystyriodd Grŵp Cynllunio Strategol Sir Ddinbych y mater hwn yn eu cyfarfod ym mis Hydref. Roedd y grŵp yn gefnogol iawn o'r fenter Awyr Dywyll ac yn cymeradwyo'r CCA a'r adroddiad ar ymgynghoriadau, ac yn cytuno y dylid eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio gan argymhell y dylid mabwysiadu'r CCA Diwygiedig. Fe wnaeth y Grŵp Cynllunio Strategol awgrymu diwygiad pellach i egluro bod yr adran ar 'Gyngor yn ôl

y math o ddatblygiad' hefyd yn ymwneud â datblygiadau twristiaeth (gweler tudalen 22). Dylid newid teitl yr adran 'Masnachol' i Masnachol/*Twristiaeth* a diwygio paragraff 5.34 i ddarllen 'Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i eiddo manwerthu/masnachol, tai cyhoeddus a *datblygiadau twristiaeth* llai.' Roedd y cydweithgor swyddogion yn cytuno â'r newid ac mae bellach wedi'i ymgorffori yn y ddogfen CCA diwygiedig sydd ynghlwm â'r adroddiad hwn.

8.4 I weld manylion yr ymgynghoriadau cyhoeddus ar y CCA drafft, gweler adran 4 uchod.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes canlyniadau ariannol negyddol uniongyrchol i'r argymhellion.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Bydd methu â rhoi CCA ar waith i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd o ran golau sy'n gyfeillgar i awyr dywyll i ddatblygwyr yn yr AHNE ac o'i hamgylch yn tansailio ymdrechion i gadw a gwella tawelwch fel un o'n Nodweddion Arbennig yr AHNE. Hefyd, byddai methiant o'r fath yn rhwystr sylweddol i ddyhead yr AHNE i sicrhau cydnabyddiaeth ffurfiol o'r ardal fel Cymuned Awyr Dywyll gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).